# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 19/02/01

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn y Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Swyddfa Gartref wedi'i hysbysu ynghylch unrhyw gynigion ganddi a fydd yn effeithio ar Gymru sy'n ymwneud â cheiswyr lloches. (WAQ9868)

**David Davies (Mynwy);** Pa hysbysebion sydd wedi'u hariannu gan y Cynulliad hyd yma. (WAQ9897)

**David Davies (Mynwy);** Beth fydd cyfanswm cyllideb y Cynulliad ar hysbysebu yn y flwyddyn ariannol nesaf. (WAQ9898)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); Beth yw'r union drefniadau ar gyfer darparu cymorthfeydd y swyddfa fewnfudo i'r rheini a fydd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Fewnfudo yng ngharchar Caerdydd. (WAQ9860)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); Pa ymgynghori a fu rhyngddi a San Steffan ynghylch cartrefu'r rheini sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Fewnfudo yng Ngharchar Caerdydd. (WAQ9862)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); Pa adnoddau sy'n cael eu darparu i Gymru gan y llywodraeth yn San Steffan i helpu i gartrefu'r rheini sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Fewnfudo yng Nghymru. (WAQ9863)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); Pryd caiff y rheini sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Fewnfudo eu cartrefu yng ngharchar Caerdydd. (WAQ9864)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); Pa ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r Concordat gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â chartrefu'r rheini sy'n cael cadw o dan y Ddeddf Fewnfudo yng Nghymru. (WAQ9865)

Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); A wnaiff restru'r ffermydd yn ardal Canolbarth Cymru yr ymwelodd â hwy yn ystod 2001 yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Amaethyddiaeth. (WAQ9866)

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); A yw wedi argymell bod cyffuriau ar gael ar bresgripsiwn yr NHS i bobl sy'n dioddef o MS. (WAQ9861)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

**David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch y posibilrwydd y caiff y Bathdy Brenhinol ei werthu, ac effaith unrhyw breifateiddio ar swyddi yng Nghymru. (WAQ9871)

**David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch proffidioldeb y Bathdy Brenhinol ac effaith unrhyw breifateiddio ar swyddi yng Nghymru. (WAQ9872)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**David Davies (Mynwy);** Pa ganran o fastiau ffonau symudol yng Nghymru a ddefnyddir gan fwy nag un gweithredwr. (WAQ9870)

**David Davies (Mynwy);** Faint o geisiadau a gyflwynwyd yn y 2 flynedd ddiwethaf ar gyfer gosod mastiau ffonau symudol ar dir ysgolion yng Nghymru. (WAQ9869)

**David Davies (Mynwy);** Faint o geisiadau a gyflwynwyd yn y 2 flynedd ddiwethaf ar gyfer gosod mastiau ffonau symudol ar dir ysbytai yng Nghymru. (WAQ9867)

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff restru dyletswyddau statudol y Cynulliad mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd. (WAQ9899)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A oes gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau ar gyfer ariannu rhaglenni arolygu manwl parhaus o draethau Gwyr, er mwyn sefydlu cysylltiad rhwng cloddio am dywod ac erydiad y traeth. (WAQ9896)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A oes arian ychwanegol ar gael i ddarparu canlyniadau arolwg mwy manwl a mwy perthnasol o draethau Gwyr. (WAQ9895)